**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Iau, 15fed Chwefror, 2018 at 2.00 pm**

**PRESENT:** County Councillor M. Powell (Chairman)
County Councillor P. Clarke (Vice Chairman)

County Councillors: D. Batrouni, D. Dovey, A. Easson, R. Edwards, P.A. Fox, R.J.W. Greenland, L. Guppy, R. Harris, G. Howard, D. Jones, P. Jones, S. Jones, S.B. Jones, P. Jordan, P. Murphy, B. Strong, F. Taylor, A. Watts, A. Webb, L.Brown, A.Davies, L.Dymock, M.Groucutt, R.John, L.Jones, M.Lane, P.Pavia, J.Pratt, R.Roden, J.Treharne, J.Watkins and S. Woodhouse

**OFFICERS IN ATTENDANCE:**

| | |
|---|---|
| Paul Matthews | Chief Executive |
| Kellie Beirne | Deputy Chief Executive |
| Peter Davies | Chief Officer, Resources |
| Roger Hoggins | Head of Operations |
| Robert Tranter | Head of Legal Services & Monitoring Officer |
| Nicola Perry | Senior Democracy Officer |

**APOLOGIES:**

County Councillors D. Blakebrough, D. Evans, J. Higginson, S. Howarth, K. Williams, J.Becker, M.Feakins and T.Thomas

**2. Datganiadau o Fuddiant**

Dim.

**3. Polisi Cyflog**

Cyflwynwyd adroddiad i'r Cyngor i gymeradwyo cyhoeddi Polisi Cyflog Cyngor Sir Fynwy, yn unol â'r Ddeddf Lleoliaeth

Cadarnhawyd y byddai'r staff a allai gael eu heffeithio gan gyflwyniad y Model Cynnwys Amgen yn cael eu cynnwys o dan drefniadau Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau Diogelu Cyflogaeth.

Penderfynodd y Cyngor gytuno'r argymhellion:

**Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Polisi Cyflog ar gyfer y flwyddyn 1af Ebrill 2017 hyd at 31ain Mawrth 2018.**

**Bod y Cyngor yn cymeradwyo talu dyfarniad cyflog y Cydgyngor Cenedlaethol (CC) ar gyfer Prif Swyddogion Gweithredol yr Awdurdod Lleol, y cytunwyd arno yn genedlaethol. Mae telerau ac amodau gwaith a chyflog y Prif Swyddogion Gweithredol yn cael eu rhagnodi gan y Cydgyngor Cenedlaethol ar gyfer Prif Swyddogion Gweithredol awdurdodau lleol. Y cytundeb cyflog a gyrhaeddwyd yn 2016 ar gyfer Y Prif Swyddogion Gweithredol oedd codiad cyflog o 1% sy'n effeithiol o 1 Ebrill 2016 a chynnydd cyflog o 1%, sy'n weithredol 1 Ebrill 2017. Nid oes cynnig cyflog wedi'i gadarnhau ar gyfer Ebrill 2018.**

**Bod y Cyngor yn cymeradwyo talu'r dyfarniad cyflog y cytunwyd arno ac a negodwyd yn genedlaethol ar gyfer y cyflogeion hynny sy'n dod o dan y Cydgyngor Cenedlaethol ar gyfer Prif Swyddogion yr Awdurdod Lleol. Rhagnodir telerau ac amodau cyflogaeth a chyflog Prif Swyddogion yr Awdurdod Lleol gan y Cydgyngor Cenedlaethol.**
**Roedd y cytundeb cyflog a bennwyd yn 2016 ar gyfer Prif Swyddogion yn gynnydd o 1% mewn cyflog a oedd yn weithredol o 1 Ebrill 2016 a chynnydd o 1% yn weithredol o 1 Ebrill 2017. Nid oes cynnig cyflog wedi'i gadarnhau ar gyfer Ebrill 2018. Mae'r Cyngor yn cyflogi Prif Swyddogion dan delerau ac amodau'r Cydgyngor Cenedlaethol, ac ymgorfforir hyn yn y contractau cyflogaeth. Mae'r Cydgyngor Cenedlaethol ar gyfer Prif Swyddogion yn negodi ar godiadau cyflog blynyddol cenedlaethol (y DU) ar gyfer y grŵp hwn, a phenderfynir unrhyw ddyfarniad ar y sail hon. Mae gan Brif Swyddogion a gyflogir o dan delerau ac amodau'r Cydgyngor Cenedlaethol hawl gytundebol i unrhyw godiadau cyflog cenedlaethol a bennwyd gan y Cydgyngor Cenedlaethol a bydd y Cyngor hwn felly yn talu'r rhain yn ôl y gofyn yn unol â gofynion cytundebol.**

4. <u>Cynllun Corfforaethol</u>

Derbyniodd y Cyngor adroddiad i ystyried a chymeradwyo'r Cynllun Corfforaethol gan gyfleu diben a gwerthoedd yr awdurdod ochr yn ochr â'r rhaglen uchelgeisiol a fydd yn cael ei blaenoriaethu dros y pedair blynedd a hanner nesaf.

Ystyriodd Arweinydd yr Wrthblaid elfennau cadarnhaol y cynllun, gan ei amlygu fel cynllun clir o ran blaenoriaethau ac yn gynllun mesuradwy ond ychwanegodd, yn fwy cyffredinol, fod y Cynllun Corfforaethol yn gofnod o fethiant y Ceidwadwyr yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf. Nodwyd y pwyntiau a ganlyn: Roedd y bwlch o ran cyrhaeddiad ymhlith yr uchaf yng Nghymru; 800 o dai yn brin o'n cynllun ein hunain; prisiau tai; nid yw gosod offer monitro yn delio â llygredd. Gofynnodd y Cynghorydd Batrouni am eglurhad a gwybodaeth bellach am nifer o bwyntiau. Daeth i'r casgliad y byddai'r Grŵp Llafur yn ymatal rhag cymeradwyo'r Cynllun Corfforaethol.

Roedd yr Aelod Cabinet dros Addysg yn edrych ymlaen at gyflawni'r cynllun dros y pedair blynedd nesaf ac roedd yn hyderus y byddem yn gwneud hynny gyda chefnogaeth pawb sy'n gweithio yn y system ysgolion.

Eglurodd Aelod y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol y byddai'r cynllun hwn yn ymwneud ag atal tlodi, nid yn unig yn ei leihau ac y byddai'n ymwneud ag annog pobl i gael gwaith a gwella bywydau'r rhai sydd mewn tlodi.

O ran tai, roedd ymgynghoriad wedi'i gyhoeddi ym mis Tachwedd 2017 i'r cyhoedd a rhanddeiliaid ynghylch a ddylem adolygu ein Cynllun Datblygu Lleol. Rhagwelwyd y byddai cam yn cael ei gymryd i adolygu'r CDLl. Mae cyfarfod ychwanegol o'r Cyngor wedi'i drefnu i fwrw ymlaen â hynny ym mis Mawrth.

Roedd rhywfaint o syndod nad oedd sôn am drafnidiaeth gyhoeddus yn y Cynllun.

Gofynnodd yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol, Diogelu ac Iechyd y dylid nodi bod Sir Fynwy yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i bobl fyw bywydau annibynnol ac, mewn cyfarfod diweddar, bod Sir Fynwy wedi'i chydnabod yn gyhoeddus fel Cyngor arloesol, yn llwyddiannus iawn mewn rhai meysydd o'r gwasanaethau cymdeithasol.

Mynegodd y Cynghorydd Sir Groucutt rwystredigaeth ynghylch yr addysg yn Sir Fynwy a dywedodd y dylem gydnabod y gwaith sylweddol sydd angen ei wneud ac nid ymdriniwyd â hyn yn y Cynllun.

Ymatebodd yr Arweinydd gyda siom bod y gwrthbleidiau wedi ystyried y Cynllun fel cofnod o fethiant, ac ychwanegodd nad oedd gan Aelodau'r Grŵp Llafur unrhyw syniadau.

Penderfynodd y Cyngor gytuno'r argymhellion:

**Cymeradwyo'r Cynllun Corfforaethol.**

**Mabwysiadu'r amcanion sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun fel Amcanion Llesiant y Cyngor yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.**

**To adopt of the objectives contained in the plan as the Council's Well-being Objectives in accordance with the requirements of the Well-being of Future Generations Act.**

5. **Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol**

Cyflwynwyd adroddiad i'r Cyngor yn rhoi gwybod am ganlyniadau'r ymarfer ymgynghori cyhoeddus diweddar ar y Mapiau Rhwydwaith Integredig Drafft (MRhID) ac yn gofyn am ganiatâd i gyflwyno'r MRhIDiau terfynol i Lywodraeth Cymru (LlC).

O ran terfynau amser, roeddem wedi cael estyniad gan Lywodraeth Cymru i gyflawni'r gwaith hwn.

Gofynnwyd i'r llwybr a ddynodir fel Lôn Sipsiwn A18 Sipsi i'r bont newydd arfaethedig yn Llan-ffwyst gael ei ymestyn i'r fynedfa gyda Grove Farm.

Gofynnwyd am ystyried llwybr beicio/cerdded uniongyrchol o ben draw'r bont yn Llan-ffwyst i ganol y dref.

Roedd pryder bod y llwybrau teithio llesol yn canolbwyntio ar drefi yn hytrach nag ar ardaloedd gwledig.

Nid yw'r B4245 yn dod o fewn y map teithio llesol a byddai'n cael ei ystyried yng nghyfarfod nesaf Pwyllgor Ardal Glan Hafren. Byddai'r cyfarfod hwn hefyd yn ymdrin â'r pryderon ynghylch terfynau cyflymder a damweiniau lle dioddefodd dau berson o anafiadau sy'n newid bywydau.

Penderfynodd y Cyngor gytuno'r argymhelliad:

**Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r MRhIDiau fel yr atodir yn Atodiadau A ac C ac yn cymeradwyo'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru.**

6. **Model Cyflawni Amgen**

Derbyniodd y Cyngor adroddiad i nodi'r goblygiadau i'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) yn sgil newid i Fodel Cyflawni Amgen ar gyfer gwasanaethau Twristiaeth, Hamdden, Diwylliant ac Ieuenctid.

Cafodd y broses ei hegluro gan y Swyddog Monitro, ac eglurodd y cafwyd cyfle i alw i mewn y penderfyniad a wnaed gan y Cabinet ar 29ain Ionawr 2018. Fodd bynnag, roedd dod gerbron y Cyngor heddiw yn gyfle i drafod a dadlau.

Croesawodd y Cadeirydd Swyddogion ac ymgynghorwyr o Anthony Collins.

Gwrthwynebodd y gwrthbleidiau'r MCA ac roedd yn well ganddynt y model trawsnewid mewnol, gan nodi pryderon mai model osgoi treth yw'r MCA, a'r benthyca parthed y model. Os bydd y model yn methu, y Cyngor fyddai'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb, ac felly talwyr y dreth. Cyfeiriodd y Cynghorydd Batrouni at enghreifftiau diweddar lle'r oedd modelau o'r fath wedi methu'n ddramatig.

Cytunwyd pe bai'r MCA yn mynd yn ei flaen y byddai aelod o'r wrthblaid ar y Bwrdd.

Ceisiwyd sicrwydd na fyddai'r costau i'n hysgolion uwchradd, o ran yr arian y disgwylir iddynt ei dalu i ganolfannau hamdden ar gyfer darparu gwasanaethau, yn cynyddu'n uwch na chyfradd chwyddiant.

Ceisiwyd sicrwydd y byddai cysylltiadau â'r awdurdod iechyd, ac elfen gwasanaethau cyhoeddus y canolfannau hamdden yn cael eu cynnal, heb unrhyw gostau cynyddol ar gyfer atgyfeiriadau adsefydlu.

Mynegodd y Cynghorydd Watts bryderon fod demograffeg benodol yn cael ei methu, a gofynnodd am fanylion ynghylch Pwll Trefynwy parthed perchenogaeth yr ased a'r ddyled. Cadarnhawyd y byddai sylfaen yr ased yn parhau i fod yn eiddo i'r Cyngor, ac na fyddai gan y sefydliad unrhyw ddyled.

Mynegodd y Cynghorydd Pratt ei chefnogaeth i'r model, gan nodi manteision y MCA i drigolion Llanelly Hill.

Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet dros Lywodraethu y byddai'r berthynas rhwng y MCA ac ysgolion yn cael ei diogelu, fel y cytunwyd yn y Cabinet ar 29 ain Ionawr 2018. Ychwanegodd y byddai angen i drefniadau llywodraethu fod yn foddhaol cyn y byddai'r MCA yn mynd yn ei flaen.

Esboniodd y Prif Weithredwr wrth yr Aelodau y byddai cymeradwyo'r adroddiad yn galluogi Swyddogion i barhau i gyflwyno adroddiad pellach ar gyfer penderfyniad y Cyngor Llawn o'u disgwyliadau ar gyfer sefydliad newydd.

Penderfynodd y Cyngor gytuno'r argymelliadau:

**Cytuno y dylai £155,000 gael ei dynnu o'r gronfa wrth gefn o fuddsoddiadau blaenoriaethol er mwyn ariannu gweithgarwch cychwynnol ar gyfer y Model Cyflawni Amgen.**

**Cydnabod yr angen i wneud darpariaeth o fewn y CATC fel rhan o'r broses o bennu'r gyllideb ar gyfer cyfnod y 5 mlynedd nesaf, sef £388,000, sy'n deillio o'r penderfyniad i symud gwasanaethau Twristiaeth, Hamdden, Diwylliant ac Ieuenctid i Fodel Cyflawni Amgen sydd newydd ei sefydlu.**

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Iau, 15fed Chwefror, 2018 at 2.00 pm**

**The meeting ended at 4.15 pm**